Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

SWYDDOGOL

**CAMAU GWEITHREDU**

**Enw'r cyfarfod:** Y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

**Dyddiad:** 17 Mai 2023

**Amser:** 17:00 awr - 18:00 awr

**Lleoliad:** Ystafell 3, Ceredigion, Pencadlys yr Heddlu

**Cadeirydd y Cyfarfod:** Derek Turner – Ymgynghorydd Annibynnol

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Derek Turner, - Cynghorydd Annibynnol (Cadeirydd)<br>Paul Saunders - Cynghorydd Annibynnol<br>Debra Croft - Cynghorydd Annibynnol<br>Selima Bahadur - Cynghorydd Annibynnol<br>Baba Gana - Cynghorydd Annibynnol (yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod).<br>Amol Pandit - Cynghorydd Annibynnol (yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod).<br>Patricia Rafique - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Paul Lewis - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Darren Crockford - Rhingyll, y Ganolfan Atal Ganolog<br>Teleri Williams - Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP (yn bresennol ar gyfer rhan o'r cyfarfod).<br>Miranda Bryant - Swyddog Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, HDP<br>Gruff Ifan - Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, SCHTh |
| **Ymddiheuriadau:-** | Jayne Butler - Ditectif Uwch-arolygydd<br>Louise Harries - Prif Arolygydd – y Ganolfan Atal Ganolog<br>Chris Neve - Prif Arolygydd – Gweithrediadau, Plismona Tiriogaethol |
| | Gwyrdd = Camau Gweithredu wedi'u Cwblhau<br>Melyn = Camau gweithredu yn mynd rhagddynt<br>Nodwyd = Penderfyniadau wedi'u nodi |

| Rhif Cam Gweithredu | Cam Gweithredu / Penderfyniadau Allweddol | Perchennog | Amserlen | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|
| 19 | IAG/150223/A | Nododd Derek Turner fod y dillad gwrth-rwygo yn cyd-fynd ag A136 ac y byddant yn hysbysu'r Tîm Iechyd Meddwl am y prosiect hwn ac yn gofyn am adborth ganddynt. | Amh. | Cwblhawyd | 17.5.2023 Mae Derek Turner wedi trafod y prosiect dillad gwrth-rwygo gyda Gweithredu Gorllewin Cymru dros Iechyd Meddwl, sy'n edrych ar werthusiad cymheiriaid o Adran 136 o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd ganddynt ddiddordeb mawr mewn dysgu am hyn. Byddant yn cadw golwg am unrhyw adborth a'r defnydd o ddillad ar gyfer unrhyw effaith ar bobl sy'n cael eu cadw gan yr heddlu. |
| 21 | IAG/21/150223/ A | **Trais yn Erbyn Menywod a Merched**<br><br>Awgrymodd Sarah Lewis, AHGTAEF, y dylai'r heddlu edrych ar ble maen nhw nawr o'i gymharu â chwe mis yn ôl.<br><br>**Cam Gweithredu:** Y Ditectif Ringyll Jayne Butler i werthuso ble mae'r heddlu nawr o'i gymharu â chwe mis yn ôl. | Y Ditectif Ringyll Jayne Butler | Yn parhau | |
| 22 | IAG/22/1705202 3/N | **Diweddariad am Drais yn Erbyn Menywod a Merched** – Rhoddodd Derek Turner drosolwg o'r diweddariad ysgrifenedig yr oedd y grŵp | Aelodau'r GYA | Cam Gweithredu Newydd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | wedi'i dderbyn.<br><br>Mae'r heddlu wedi ymgymryd â phroses newid enfawr wrth symud i system rheoli cofnodion newydd sbon. Mae'n disodli nifer o systemau a oedd eisoes yn bodoli a bydd yn newid y ffordd yr ydym yn ymdrin â chofnodion yn y dyfodol. Ar hyn o bryd, mae'r heddlu'n destun archwiliad PEEL, sy'n cael ei gynnal gan AHGTAEF. Er mwyn cynorthwyo â'r gwaith yr ymgymerir ag ef tuag at y cynllun gweithredu Trais yn Erbyn Menywod a Merched, aeth swyddogion i ddigwyddiad arfer gorau gyda'r Coleg Plismona. Rhoddwyd arian STAR i'r heddlu a phrifysgolion partner ar gyfer prosiect ymchwil sydd wedi'i anelu at ddatblygu pecyn offer a fydd yn cynorthwyo'r heddlu i nodi'r drwgdybiedigion hynny sy'n cyflwyno perygl uwch o niwed. Mae'r heddlu wedi cyflwyno treial matrics diweddaredd, difrifoldeb ac amlder sy'n nodi troseddwyr mynych, yn arbennig y rhai sy'n cael eu | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | hamau o droseddau niwed uwch.<br><br>Mae'r heddlu wedi gofyn am adolygiad cymheiriaid o ymateb yr heddlu i gam-drin domestig ac mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi cynnal adolygiad craffu dwys o ymateb yr heddlu i stelcio ac aflonyddu. Bydd yr heddlu'n ystyried yr argymhellion ac yn nodi gweithgarwch a fydd yn gwella perfformiad yn y dyfodol. | | | |
| | | Yn dilyn cyfnod o ymgynghori gyda'r Fforwm Dioddefwyr, ac ar ôl ystyried gwerthusiad cenedlaethol a gyflawnwyd gan Brifysgol Lerpwl, mae'r heddlu'n treialu ymateb o bell i gam-drin domestig. Ymgysylltir o bell drwy gynadledda fideo; fodd bynnag, yr ydym yn awyddus i bwysleisio y bydd yr ymateb o bell hwn ond yn cael ei gyflawni pan mae'r dioddefydd yn cytuno iddo, a bydd yr heddlu bob amser yn mynd at y dioddefydd yn bersonol os yw'n gofyn iddynt wneud. Ni fydd yr ymateb hwn | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | yn cael ei gynnig os yw'r drwgdybyn yn bresennol. | | | |
| | | Mae'r heddlu wedi derbyn arian drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer y swydd Cydlynydd stelcio, sy'n ein galluogi i barhau i addysgu a gwella ymateb yr heddlu i stelcio ac aflonyddu.<br><br>Yn dilyn proses dendro, rhoddwyd cytundeb i wasanaeth cam-drin domestig Calan ar gyfer y gwasanaeth ymgynghorol trais domestig annibynnol, sy'n sicrhau bod cymorth lleol ar gael i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig.<br><br>Mae adroddiad Casey wedi'i gyhoeddi, ac er ei fod yn canolbwyntio ar Heddlu Llundain, yr ydym yn ei adolygu ac yn nodi pwyntiau dysgu ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys.<br><br>Holwyd y grŵp am eu sylwadau a gofynnwyd iddynt anfon unrhyw adborth mewn perthynas â'r diweddariad ynghylch Trais yn Erbyn Menywod a Merched at Miranda Bryant. | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Cam Gweithredu:** Aelodau'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol i anfon adborth at Miranda Bryant. | | | |
| 23 | IAG/23/170523/A | **Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu**<br><br>Rhoddodd Teleri Williams ddiweddariad mewn perthynas ag Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 17 Mai 2023.<br><br>Braf oedd gweld bod uwch arweinwyr o Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Heddluoedd Cymru'n bresennol yn y digwyddiad hwn.<br><br>Codwyd ymholiad o'r digwyddiad mewn perthynas â'r ffordd y mae sefydliadau'n cynnwys eu hadrannau caffael, a beth yr ydym wir yn ei wybod am y busnesau hynny yr ydym yn eu cyflogi i wneud gwaith ar ein rhan. Ydyn ni fel sefydliad yn gofyn iddynt sut maen nhw'n | Teleri Williams | Cam Gweithredu Newydd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | cefnogi eu staff amrywiol?<br><br>**Cam Gweithredi:** Bydd Teleri Williams yn holi'r adran gaffael am y gwiriadau y mae'r heddlu'n eu cynnal, a pha un ai a yw'r heddlu'n holi sefydliadau am y ffordd maen nhw'n cefnogi eu staff amrywiol. | | | |
| 24 | IAG/24/170523/<br>A | **Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu – Parhad**<br><br>**Cam Gweithredu:** Teleri Williams i holi Chris Neve pa un ai a yw'r heddlu wedi esbonio wrth gymunedau pam y mae'r heddlu'n cynnal gweithdrefnau Stopio a Chwilio, ac effaith hyn ar gymunedau lleiafrifoedd ethnig. | Teleri Williams | Cam Gweithredu Newydd | |
| 25 | IAG/25/170523/<br>N | Awgrymodd Amol Pandit y dylid gwahodd y siaradwyr allweddol o Uwchgynhadledd Gwrth-hiliaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru i siarad yn Heddlu Dyfed-Powys. Cytunodd Baba Gana.<br><br>Dywedodd Baba Gana fod Heddlu Llundain dan y lach ddydd ar ôl dydd ynghylch ymddygiad, bwlio ac aflonyddu | Amh. | Nodwyd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | rhywiol, ac awgrymodd y dylai'r heddlu ddefnyddio gwersi a ddysgwyd fan hyn i atal y fath bethau rhag digwydd yn Heddlu Dyfed-Powys, er bod y lledaeniad daearyddol yn wahanol o'i gymharu â Heddlu Llundain.<br><br>Dywedodd Debra Croft eu bod wedi cwblhau llawer o waith mewn perthynas â chaffael o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a chynigiodd helpu mewn unrhyw ffordd bosibl. Ni ddylai fod yn ymarferiad ticio blychau.<br><br>Ailadroddodd Amol Pandit na ddylai fod yn ymarferiad ticio blychau, ac y dylai fod nod terfynol a diben i'r gweithgarwch, â ffrâm amser pendant y dylid ei gweithredu a newidiadau amlwg ar y tir. | | | |
| 26 | IAG/26/170523/A | **Unrhyw Fusnes Arall**<br><br>Hysbysodd Paul Saunders y grŵp fod Clwb Byddar Llanelli wedi derbyn cyflwyniad mewn perthynas â Seiberdroseddu. Ar ddiwedd y cyflwyniad, dywedodd cynrychiolydd o | Miranda Bryant | Cam Gweithredu Newydd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | HDP y dylai unrhyw un sydd â phroblem alw 101. Roedd y Clwb Byddar yn siomedig nad oedd yr unigolyn yn ymwybodol fod rhif ffôn symudol ar gael i bobl fyddar anfon neges destun ato os oes ganddynt broblem. Mae'n debyg nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chyfleu.<br><br>**Cam Gweithredu:** Miranda Bryant i sicrhau bod swyddogion a staff yn ymwybodol o'r rhif ffôn symudol sydd ar gael ar gyfer pobl sy'n fyddar neu'n drwm eu clyw. | | | |
| 27 | IAG/27/170523/N | **Stopio a Chwilio**<br><br>Ffocws cyfarfod nesaf y Panel Stopio a Chwilio fydd y ffordd y mae menywod yn cael eu trin pan fyddant yn cael eu stopio a'u chwilio. | Amh. | Nodwyd | |

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 13 Medi 2023 yn Llandrindod neu ar-lein.**